# BWRDD GWEITHREDOL
# 3 Mehefin 2019

## YMESTYN GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS (GORCHMYNION CŴN SIR GAERFYRDDIN)

**Y Pwrpas:** Cymeradwyo ymestyn Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus cyfredol 2016 ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

## Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

a) Bod hyd Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016 yn cael ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2019 ymlaen

b) Bod y Cyngor yn gwneud Gorchymyn Ymestyn i weithredu'r estyniad uchod ac yn cymeradwyo Gorchymyn 2016 â geiriad addas er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod hyd Gorchymyn 2016 wedi cael ei ymestyn.

## Y Rhesymau:

Daeth y Gorchymyn Gwreiddiol i rym ar 1 Gorffennaf 2016. Gwnaed y gorchymyn am gyfnod o 3 blynedd, a bydd yn dod i ben cyn bo hir, ac am y rheswm hwn, mae angen i ni ystyried ei ymestyn. Os nad yw'r gorchymyn presennol yn cael ei ymestyn, ni fydd y rheolaethau presennol yn berthnasol mwyach ar ôl 1 Gorffennaf.

| | |
|---|---|
| Angen ymgynghori a'r Pwyllgor Craffu perthnasol: | Oes |
| Pwyllgor Craffu a Dyddiad: | Oes (17 Mai 2019) |
| Y BWRDD GWEITHREDOL / CYNGOR / PWYLLGOR: | Oes (3 Mehefin 2019) |
| Argymhellion / Sylwadau'r Pwyllgor Craffu: | Ddim yn berthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Oes |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Nac Oes |

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Y Cynghorydd Philip Hughes (Diogelu'r Cyhoedd)**


| | | |
|---|---|---|
| **Y Gyfarwyddiaeth:** Yr Amgylchedd | | |
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth:** Ainsley Williams | **Swydd:** Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff | **Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau E-bost:** 01267 224500 AIWilliams@sirgar.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** Michael Roberts | Swyddog Polisi Ansawdd Amgylcheddol Lleol | 01267 225806 MJRoberts@sirgar.gov.uk |